# HYSBYSEB

**TEITL Y RÔL:** Cynorthwy-ydd addysgu cyffredinol (Lefel 3) – rhan amser.

**TESTUN YR HYSBYSEB:**
Mae Corff Llywodraethol Ysgol Gymraeg Y Ffin yn chwilio am gynorthwy-ydd dysgu egnïol a brwdfrydig i'r ysgol boblogaidd hon. Mae hwn yn gyfle gwych i weithio ochr yn ochr â'r holl randdeiliaid ysgol i sicrhau lles a datblygiad personol pob plentyn.

**RHIF ADNABOD Y SWYDD:** L23181019

| | |
|---|---|
| **LLEOLIAD:** | Ysgol Gymraeg y Ffin |
| **GRADD:** | (Band D, SCP 9 £26,409 pro rata) sy'n cynnwys pro-rata hawliau gwyliau banc a gwyliau blynyddol.<br>Amser tymor yn unig (Yn weithredol o 01.04.2018 bydd y cyfrifiad hwn yn ymgorffori hawl pro rata i wyliau banc a gwyliau blynyddol). |
| **ORIAU:** | **16.25 awr** Yr Wythnos (3.25 awr y dydd) |
| **DROS DRO:** | Dros dro i ddechrau, hyd at Awst 31ain 2025 |
| **GWIRIAD DBS:** | Ie (Gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) |
| **DYDDIAD CAU:** | **5pm ar 28ain o Dachwedd 2024** |

**Gwybodaeth Ychwanegol**
**A fyddech gystal â nodi na allwn dderbyn CV**

**I wneud cais am y swydd hon llenwch ffurflen gais drwy:**
**https://www.monmouthshire.gov.uk/jobs-employment/**
**neu**
**https://www.eteach.com/jobs-in-monmouthshire-schools**

Gellid cyflwyno ceisiadau yn y Gymraeg, ac ni fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn y Saesneg.

Mae'r Corff Llywodraethol wedi ymrwymo i ddiogelu lles plant a phobl ifanc ac mae'n disgwyl i bob gweithiwr a gwirfoddolwr rannu'r ymrwymiad hwn.

Mae pob swydd yn agored i'w rhannu oni nodir yn wahanol.

Mae Cyngor Sir Fynwy :-
- yn gyflogwr cyfleoedd cyfartal ac mae'n croesawu ceisiadau o bob adran o'r gymuned.
- yn gefnogwr anabledd hyderus, ymroddedig .
- yn gyflogwr cyfeillgar i'r Lluoedd Arfog .
- yn ymwybodol o Awtistiaeth ac yn ymroddedig i symud unrhyw rwystrau i gyflogaeth
- yn ymrwymedig i gefnogi pobl ifanc sy'n gadael ein gofal i gael mynediad i gyfleoedd newydd a magu profiad.

- **Beth arall sydd angen i chi ei wybod…..Ein Gwerthoedd:**

- Ategir ein pwrpas gan synnwyr clir o bwy ydym ni fel sefydliad. Disgwyliwn i bobl sy'n gweithio gyda ni rannu set o werthoedd cryf a disgwyliwn fod y rhain yn amlwg yn y ffyrdd yr ydym yn gweithio ac yn ymgysylltu â'n cymunedau.
- Gwaith tîm: Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan. Byddwn yn gwneud y gorau o'r syniadau, a'r adnoddau sydd ar gael i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y pethau sy'n effeithio'n fwyaf cadarnhaol ar ein pobl a'n lleoedd.
- Tryloywder: Rydym yn agored ac yn onest. Caiff pobl y cyfle i gymryd rhan a dweud wrthym beth sydd yn bwysig.
- Hyblygrwydd : Rydym yn hyblyg, gan ein galluogi i ddarparu'r gwasanaethau mwyaf effeithiol ac effeithlon. Mae hyn yn golygu ymrwymiad diffuant i weithio gyda phawb i gofleidio ffyrdd newydd o weithio.
- Tegwch: Rydym yn darparu cyfleoedd i bobl a chymunedau ffynnu. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson.
- Caredigrwydd: Byddwn yn dangos Caredigrwydd i bawb byddwn yn gweithio gyda nhw, gan roi pwysigrwydd perthnasoedd a'r cysylltiadau sydd gennym â'n gilydd wrth wraidd pob rhyngweithio.
- Bydd y rôl hon yn gweithio gyda Sir Fynwy i gyflawni'r rhain.

monmouthshire sir fynwy

# DISGRIFIAD SWYDD

**TEITL Y RÔL:** Cynorthwy-ydd addysgu cyffredinol (Lefel 3)

Dros dro

**RHIF ADNABOD Y SWYDD:** L23181019

**GRADD:** (Band D, SCP 9 £26,409 pro rata) sy'n cynnwys pro-rata hawliau gwyliau banc a gwyliau blynyddol.
Amser tymor yn unig (Yn weithredol o 01.04.2018 bydd y cyfrifiad hwn yn ymgorffori hawl pro rata i wyliau banc a gwyliau blynyddol).

**CYFLOG:** £26,409 - £28,163 FTE pro rata hyd at Awst 31ain 2025

**ORIAU:** 16.25 awr yr wythnos,

**PATRWM GWAITH**: 3.25 awr y dydd, bob bore dydd Llun i ddydd Gwener

**LLEOLIAD:** Ysgol Gymraeg y Ffin

**GWIRIAD GWASANAETH DATGELU A GWAHARDD (DBS):**
Mae penodiad i'r swydd hon wedi'i eithrio o'r Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr ac yn amodol ar y gwiriad DBS canlynol:

Gwiriad Manylach gyda Phlant o'r Rhestr Waharddedig

**YN ATEBOL I:** Pennaeth yr ysgol, Catrin Daniel

**ASESIAD IAITH GYMRAEG:**
(a) Mae sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol;

**DIOGELU:**
Mae Diogelu Plant ac Oedolion yn flaenoriaethau allweddol i'r Ysgol a'r Cyngor. Ein nod yw cefnogi plant ac oedolion sydd mewn perygl i fod mor ddiogel ag y gallant ac i gyflawni eu potensial. Chi sy'n gyfrifol am chwarae eich rhan mewn lles, diogelwch ac amddiffyn plant ac oedolion sy'n wynebu risg. Bydd gennych gyfrifoldeb i gymryd rhan mewn hyfforddiant i'r lefel briodol o ddiogelu a bydd gennych ddyletswydd i gyflawni eich cyfrifoldebau personol dros ddiogelu.

**Ein Pwrpas:-**
Mae Ysgol Gymraeg y Ffin yn ysgol gyfeillgar a hapus sydd a ffocws ar les pob disgybl. Dymunwn gyflogi aelod o staff brwdfrydig ac ymroddgar, sy'n gallu cyd-weithio fel rhan o dîm llwyddiannus.

**Pwrpas y Rôl hon:-**

- Gweithio dan gyfarwyddyd uniongyrchol staff addysgu/uwch, fel arfer yn yr ystafell ddosbarth.

- Cefnogi mynediad i ddysgu ar gyfer disgyblion a darparu cymorth cyffredinol i'r athro wrth reoli'r disgyblion a'r ystafell ddosbarth.
- Cefnogi grwpiau dysgu

**Eich cyfrifoldebau yw:-**

- Diwallu anghenion personol y disgyblion, a gweithredu rhaglenni personol cysylltiedig, yn cynnwys materion cymdeithasol, iechyd, corfforol, hylendid, cymorth cyntaf, cymorth tŷ bach, bwyta a symudoledd.
- Arolygu a chynorthwyo disgyblion gan sicrhau eu diogelwch a mynediad i ddysgu.
- Meithrin cydberthnasau da gyda disgyblion, ymddwyn fel model rôl a bod yn ymwybodol o anghenion unigol gan ymateb iddynt.
- Sicrhau bod pob disgybl yn cael ei gynnwys a'i dderbyn.
- Annog disgyblion i ryngweithio gydag eraill ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau dan arweiniad yr athro.
- Annog disgyblion i ymddwyn yn annibynnol fel y bo'n addas.

**Dyma'r hyn y gallwn ei ddarparu ar eich cyfer:-**

- Y cyfle i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg.
- Y cyfle i weithio fel rhan o dîm hapus
- Y cyfle i ddatblygu yn broffesiynol

**Beth arall sydd angen i chi ei wybod…..Ein Gwerthoedd:**
Ategir ein pwrpas gan synnwyr clir o bwy ydym ni fel sefydliad. Disgwyliwn i bobl sy'n gweithio gyda ni rannu set o werthoedd cryf a disgwyliwn fod y rhain yn amlwg yn y ffyrdd yr ydym yn gweithio ac yn ymgysylltu â'n cymunedau.

Gwaith tîm: Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan. Byddwn yn gwneud y gorau o'r syniadau, a'r adnoddau sydd ar gael i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y pethau sy'n effeithio'n fwyaf cadarnhaol ar ein pobl a'n lleoedd.

Tryloywder: Rydym yn agored ac yn onest. Caiff pobl y cyfle i gymryd rhan a dweud wrthym beth sydd yn bwysig.

Hyblygrwydd : Rydym yn hyblyg, gan ein galluogi i ddarparu'r gwasanaethau mwyaf effeithiol ac effeithlon. Mae hyn yn golygu ymrwymiad diffuant i weithio gyda phawb i gofleidio ffyrdd newydd o weithio.

Tegwch: Rydym yn darparu cyfleoedd i bobl a chymunedau ffynnu. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson.

Caredigrwydd: Byddwn yn dangos Caredigrwydd i bawb byddwn yn gweithio gyda nhw, gan roi pwysigrwydd perthnasoedd a'r cysylltiadau sydd gennym â'n gilydd wrth wraidd pob rhyngweithio.

Bydd y rôl hon yn gweithio gyda Sir Fynwy i gyflawni'r rhain.

**Yn ychwanegol:**
Mae'n holl weithwyr yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn gweithredu bob amser mewn ffordd sy'n gyson â Pholisi Cyfle Cyfartal Sir Fynwy yn eu maes cyfrifoldeb eu hunain ac yn eu hymddygiad cyffredinol.

monmouthshire
sir fynwy

## Manyleb Person

**Sut fyddwn ni'n gwybod ai chi yw'r person cywir ar gyfer y rôl? Fel yr ymgeisydd llwyddiannus byddwch wedi dangos eich bod wedi:-**

### Profiad

Gweithio gyda phlant o'r oedran perthnasol neu ofalu amdanynt.

### Cymwysterau

Sgiliau rhifedd/llythrennedd da.
Wedi cwblhau Rhaglen Sefydlu.
Wedi cymryd rhan mewn cyfleoedd hyfforddi a datblygu. Os nad oes gennych y cymhwysterau ar gyfer lefel 3, ystyrir penodi ar lefel 1 neu 2 heb gymhwysterau.

### Gwybodaeth/Sgiliau

Gwybodaeth addas am gymorth cyntaf.
Defnyddio technoleg sylfaenol – cyfrifiadur, fideo, llungopïwr.
Y gallu i ffurfio perthynas dda gyda phlant ac oedolion.
Gweithio'n adeiladol fel rhan o dîm, deall rolau a chyfrifoldebau ystafell ddosbarth a'ch rhan chi o fewn y rhain.

- **Y Gymraeg yn Hanfodol**
  Bydd yn rhaid i chi ddangos yn y cyfweliad eich bod yn gallu siarad Cymraeg i'r lefel sy'n ofynnol ar gyfer y rôl a hysbysebir. Gellid argymell, os nad ydych ar y lefel ofynnol, eich bod yn mynychu gwersi Cymraeg (a ariennir gan y cyngor) i gyrraedd y lefel briodol.

**Petai angen rhagor o wybodaeth arnoch am y swydd hon, a fyddech gystal â chysylltu â: Catrin Daniel, Pennaeth Ffôn: 01291 420331**
**Dyddiad Cau: 5pm ar Tachwedd yr 28ain 2024**